# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

### CLA647 - Y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

### Cefndir a Phwrpas

Mae'r canllawiau statudol hyn yn amlinellu Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer y rhai sy'n darparu gwasanaethau i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Caiff y canllawiau hyn eu dyroddi o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Gweithdrefn

Mae'r weithdrefn ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau hyn o dan adran 16 o Ddeddf 2015 yn debyg i'r weithdrefn gadarnhaol a ddefnyddir ar gyfer offerynnau statudol. Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn absenoldeb penderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol, o fewn cyfnod penodol o amser, nad yw'n cymeradwyo'r drafft, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r canllawiau.

### Craffu

Mae adran 15(4)(b) o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan ar ba ddyddiad y bydd y canllawiau statudol yn dod i rym. Nid oes dyddiad o'r fath yn cael ei roi yn y drafft. Mae swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi nodi y bydd dyddiad yn cael ei roi yn fersiwn derfynol y canllawiau a gyhoeddir os na chaiff penderfyniad ei wneud. Nid nam yw hwn ond tynnir sylw'r Pwyllgor ato er gwybodaeth yn unol â Rheol Sefydlog 21.7(i).

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
02 Chwefror 2016